



Taxi Newsletter

Annual Update from Powys Licensing Team

Consultation on New Vehicle Conditions

Proposals to introduce an age policy for licensed vehicles has been considered by the licensing committee and the following proposal is now out for consultation:

Vehicles first presented for licensing must be less than 6 years old from the date of first registration (admission age)

Vehicles currently licensed must be less than 12 years old from the date of first registration provided each subsequent licence takes place immediately on expiry of the current licence. (i.e. no breaks in between renewal of the licence).

The proposals are thought necessary to raise the standard of the licensed fleet in Powys. There will be a lead in time of 12 months to allow existing licensed vehicles to be replaced, where necessary. An age limit is in line with most of our neighbouring authorities who have stricter age policies. Our passenger transport contract section have already introduced an age policy for vehicles carrying out home to school contracts. In addition officers perceive that out of area operators sometimes choose to 'operate' from Powys to avoid age policies in their home authorities where most of their private hire work is carried out, this is an issue Nationally, not just for Powys. Although National Standards are the way forward, we are not likely to get these for some time yet and by introducing an age policy now it will assist operators in improving their fleet in readiness for the higher standards of vehicle expected when national Standards come in. The Department of Transport recently published a report recommending national Standards for drivers and vehicles <https://www.gov.uk/government/publications/taxi-and-private-hire-vehicle-licensing-recommendations-for-a-safer-and-more-robust-system>, the Welsh Government have already indicated that any new legislation proposed by them will likely include National Standards.

Taxi drivers have until **31 January 2019** to respond to the consultation, only representations that are backed up with reasoned arguments will be considered.

WHAT'S IN THIS ISSUE:

- Big Changes to taxi legislation in Wales
- Consultation on Changes to Vehicle Conditions
- Safeguarding Information
- New Convictions Policy
- Driver Renewal Process
- News Bites

Please Note our New Contact Details:

licensing@powys.gov.uk

01597 827389

Indian Taxi-hailing giant OLA is moving into the UK market as it continues to challenge Uber. It is initially starting its operations in South Wales and Manchester.

Unlike Uber it will offer a choice of private hire vehicles or black taxis. Ola will be the only ride-hailing app in the UK that offers passengers the option of PHVs and black cabs (hackney) through one platform, which will in the future see additional transportation options for greater passenger choice.

Ola now conducts 1 billion journeys each year worldwide, with over 1m drivers, 125m customers in 110 cities!

FACT: The National average 2 mile hackney fare (tariff one) is now £5.85. Powys is £5.40! The most expensive is in the London Heathrow area - £10.60 with South Kesteven and Newcastle-under-Lyme being the cheapest at £3.50 and £4.20 respectively. Neighbouring counties Shropshire is £5.50, Merthyr £4.50, Ceredigion £5.46, Gwynedd £5.50 & Hereford £6.30 (as at Nov 2018).

Big Changes to Taxi Legislation?

Powys, along with all the other Authorities in Wales have been involved in a Consultation with the Welsh Government over proposed changes to taxi legislation. The current legislation is somewhat outdated with Local Government (Miscellaneous provisions) 1976 and Police and Town Clauses Act 1847 having not been updated for many years!

Some of the proposals included:

- the introduction of national standards for all taxis and private hire vehicles
- tougher penalties on touting, including impounding vehicles
- retain the ability of local licensing authorities to limit the number of taxis working in their area.

UPDATE:

Following the consultation earlier this year Welsh Government on 10th December have produced a further consultation document <https://beta.gov.wales/improving-public-transport>. The consultation is open until 27th March 2019 and makes proposals about standardising fees, licence standards, enforcement etc. across Wales and more controversially the formation of a Joint Transport Authority that could become responsible for delivering the taxi licensing function across Wales. The option for local authorities to continue delivering this service is offered as an alternative, but with a standardised approach.

New Convictions Policy

Since 2005 the authority has used a policy/guidance document to assist Members to determine applicants and licence holders, at the time this was based on guidance produced by the Home Office. The document has evolved over time.

In April 2018 the Institute of Licensing published a new document 'Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and Private Hire Trades'; this was the result of a large piece of work carried out by the institute in collaboration with the Local Government Association (LGA), National Association of Licensing and Enforcement Officers (NALEO) and Lawyers in Local Government (LLG) and has been subject of widespread consultation nationally.

At a recent meeting of the Wales Licensing Expert Panel this document was considered and endorsed with the recommendation that all Welsh authorities approve and implement the Institute of Licensing Guidance, replacing their current guidelines/policy. Many authorities in England and Wales have already adopted the new policy and others are in the process of doing so. Powys has now implemented this Policy and this document can be viewed on the Council's website.

Driver renewals-

The first round of Driver Renewals since the 3 year licence came in are now coming up due for renewal. There is a change to the application process, which Drivers should be aware of:

Drivers should aim to come in at least 8 WEEKS prior to the expiry to their badge. Eg. Drivers who's badge expires 31st October, will need to submit their renewal application and documents to the Licensing Department by 31st August to ensure their DBS check comes back in time.

Licence Expiry Date	Application submitted to Licensing by		Licence Expiry Date	Application submitted to Licensing by
31st Oct 18	31st Aug 18		30th Apr 19	28th Feb 19
30th Nov 18	30th Sept 18		31st May 19	31st Mar 19
31st Dec 18	31st Oct 18		30th June 19	30th Apr 19
31st Jan 19	30th Nov 18		31st July 19	31st May 19
28th Feb 19	31st Dec 18		31st Aug 19	30th June 19
31st Mar 19	31st Jan 19		30th Sept 19	31st July 19

- ONLY Drivers who have submitted documents **8 weeks** prior to expiry will be permitted to continue driving if their DBS check does not come back before the licence renewal date. Those who apply less than 8 weeks before expiry and there is a delay in the DBS coming back, will **NOT** be permitted to drive until the DBS comes back.

- Ensure you bring 3 forms of ID to your renewal appointment (including your Driving Licence & 2 others. eg. Passport, birth certificate (needed to show Right to Work), utility bill within last 3 months etc. Contact the Licensing Team for further advice if you are having problems getting all these documents)

- Appointments MUST be made for Driver Renewals. Those turning up without an appointment, will not be seen.



Cylchlythyr Taccsis

Diweddariad blynyddol gan Dîm Trwyddedu Powys.

Ymgynghori ynghylch Cyflyrau Cerbydau Newydd

Mae'r cynigion i gyflwyno polisi oedran ar gyfer cerbydau trwyddedig wedi cael eu hystyried gan y pwyllgor trwyddedu ac mae'r cynnig canlynol bellach yn destun ymgynghoriad:
Rhaid i gerbydau a gyflwynir gyntaf ar gyfer eu trwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai nag 6 mlwydd oed o'r dyddiad cofrestru cyntaf (oed derbyn)

Rhaid i gerbydau sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd fod yn llai na 12 mlwydd oed o ddyddiad y cofrestrriad cyntaf cyn belled â bod pob trwydded ddilynol yn dod i rym ar unwaith ar ôl i'r drwydded gyfredol ddod i ben. (hy dim egwyl rhwng adnewyddu'r drwydded).

Credir bod y cynigion yn angenrheidiol i godi safon y fflyd drwyddedig ym Mhowys. Bydd 12 mis o amser arweiniol i ganiatáu i gerbydau trwyddedig presennol gael eu hamnewid, lle bo angen. Mae terfyn oedran yn cyd-fynd â rheolau'r rhan fwyaf o'n hawdurdodau cyfagos sydd â pholisïau oedran llymach. Mae adran ein contractau trafndiaeth teithwyr eisoes wedi cyflwyno polisi oedran ar gyfer cerbydau sy'n cyflawni contractau o'r cartref i'r ysgol. Yn ogystal, mae swyddogion yn canfod bod gweithredwyr y tu allan i'r ardal weithiau'n dewis 'gweithredu' o Bowys i osgoi polisïau oedran yn eu hawdurdodau cartref lle mae'r rhan fwyaf o'u gwaith hurio preifat yn cael ei wneud. Mae hyn yn broblem yn genedlaethol, nid yn unig ym Mhowys. Er mai Safonau Cenedlaethol yw'r ffordd ymlaen, nid ydym yn debygol o gael y rhain am beth amser eto a thrwy gyflwyno polisi oedran nawr, bydd yn cynorthwyo gweithredwyr i wella eu fflyd yn barod ar gyfer y safonau uwch o gerbyd a ddisgwylir pan ddaw'r Safonau cenedlaethol i mewn. Yn ddiweddar cyhoeddodd yr Adran Drafndiaeth adroddiad yn argymhell Safonau cenedlaethol ar gyfer gyrwyr a cherbydau

<https://www.gov.uk/government/publications/taxi-and-private-hire-vehicle-licensing-recommendations-for-a-safer-and-system-fwy-cadarn>.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi y bydd unrhyw ddeddfwriaeth newydd a gynigir ganddynt yn debygol o gynnwys Safonau Cenedlaethol.

Mae gan yrwyr taccsi tan 31 Ionawr 2019 i ymateb i'r ymgynghoriad. Dim ond sylwadau sy'n cael eu hategu gan ddadleuon rhesymol fydd yn cael eu hystyried.

YN Y RHIFYN HWN:

- Newidiadau mawr i ddeddfwriaeth taccsis yng Nghymru.
- Ymgynghori ar newidiadau i gyflwr cerbydau
- Gwybodaeth ar ddiogelu
- Polisi newydd ar euogfarnau
- Proses adnewyddu gyrwyr
- Newyddion yn fyr

Sylwch ar ein manylion cyswllt newydd:

licensing@powys.gov.uk

01597 827389

Pytiau o Newyddion:

- Mae OLA, cwmni galw Taccsis enfawr o India, yn symud i farchnad y DU wrth iddo barhau i herio Uber. Bydd yn gweithio yn Ne Cymru a Manceinion i ddechrau. Yn wahanol i Uber bydd yn cynnig dewis o gerbydau hurio preifat neu daccsis duon.

Ola fydd yr unig ap galw taccsi yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig dewis o PHVs a chabiau duon (hacni) drwy un plattform i deithwyr, a fydd yn y dyfodol yn gweld opsiynau cludiant ychwanegol i roi mwy o ddewis i deithwyr.

Mae Ola bellach yn cyflawni biliwn o siwrneiau bob blwyddyn ledled y byd, gyda thros 1 miliwn o yrwyr, 125 miliwn o gwsmeriaid mewn 110 o ddinasoedd!

FFAITH: Mae'r pris cyfartalog cenedlaethol am deithio 2 filltir mewn cerbyd hacni (tariff un) bellach yn £5.85. Y pris ym Mhowys yw £5.40! Y pris drutaf yw yn ardal Llundain Heathrow - £10.60 gyda South Kesteven a Newcastle-under-Lyme yn rhataf am £3.50 a £4.20 yn y drefn honno. Y pris mewn siroedd cyfagos yw: Sir Amwythig £5.50, Merthyr £4.50, Ceredigion £5.46, Gwynedd £5.50 a Swydd Henffordd £6.30 (fel yn Nhachwedd 2018).

Newidiadau Mawr i Ddeddfwriaeth Tacsis?

Mae Powys, ynghyd â'r holl Awdurdodau eraill yng Nghymru wedi bod yn rhan o Ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth tacsis. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol ychydig yn hen gyda Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cymalau'r Heddlu a Threfi 1847 heb eu diweddarau ers sawl blwyddyn!
Mae rhai o'r cynigion yn cynnwys:

- cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer pob tacsî a cherbyd hurio preifat
- cosbau llymach am dwtio, gan gynnwys powndio cerbydau
- dod â phedi-cabiau a cherbydau difyrwch o fewn cwrmpas rheoleiddio tacsîs a llogi cerbydau preifat cadw gallu awdurdodau trwyddedu lleol i gyfyngu ar nifer y tacsîs sy'n gweithio yn eu hardal.

Yn dilyn ymgynghoriad yn gynharach eleni, ar 10 Rhagfyr cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori arall sef <https://beta.llyw.cymru/gwella-trafnidiaeth-gyhoeddus>

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 27 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno cynigion ar safoni ffioedd, safonau trwyddedu, gorfodi ac ati ar draws Cymru. Un o'r pynciau mwy dadleuol yw creu cyd-awdurdodau trafndiaeth a allai fod yn gyfrifol am waith trwyddedu tacsîs ar draws Cymru. Un o'r opsiynau yw i awdurdodau lleol barhau i wneud y gwaith hwn, ond gyda dull safonedig.

Polisi Euogfarnau newydd

Ers 2005 mae'r awdurdod wedi defnyddio dogfen bolisi / canllawiau i gynorthwyo Aelodau i benderfynu ynghylch ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau. Ar y pryd roedd y ddogfen hon yn seiliedig ar ganllawiau a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ddogfen wedi esblygu dros amser.

Ym mis Ebrill 2018 cyhoeddodd y Sefydliad Trwyddedu ddogfen newydd 'Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a rhai a drwyddedir yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat'. Roedd hyn yn ganlyniad darn mawr o waith a wnaed gan y sefydliad mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Trwyddedu a Gorfodaeth (NALEO) a Chyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (LLG) ac mae wedi bod yn destun ymgynghori eang yn genedlaethol.

Mewn cyfarfod diweddar o Banel Arbenigol Trwyddedu Cymru, ystyriwyd a chymeradwywyd y ddogfen hon gyda'r argymhellid y dylai holl awdurdodau Cymru gymeradwyo a gweithredu Canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu, gan ddisodli eu canllawiau / polisi cyfredol. Mae llawer o awdurdodau yng Nghymru a Lloegr eisoes wedi mabwysiadu'r polisi newydd ac mae eraill yn y broses o wneud hynny.

Mae Powys bellach wedi gweithredu'r Polisi hwn a gellir gweld y ddogfen hon ar wefan y Cyngor.

Trwyddedau Adnewyddu Gyrwyr -

Yn fuan bydd yn bryd adnewyddu rownd gyntaf y ffurflenni Adnewyddu Gyrwyr ers i'r drwydded 3 blynedd ddod i rym. Mae yna newid i'r broses ymgeisio, y dylai Gyrwyr fod yn ymwybodol ohono:

- Dylai gyrwyr anelu at ddod i mewn o leiaf 8 WYTHNOS cyn i'w bathodyn ddod i ben. Ee. Bydd angen i yrwyr y mae eu bathodyn yn dod i ben ar 31 Hydref, gyflwyno eu cais a'r dogfennau adnewyddu i'r Adran Drwyddedu erbyn Awst 31 er mwyn sicrhau bod eu gwiriad DBS yn dod yn ôl mewn pryd.

Dyddiad y daw'r Drwydded i ben	Y cais i'w gyflwyno i'r Adran Drwyddedu erbyn	Dyddiad y daw'r Drwydded i ben	Y cais i'w gyflwyno i'r Adran Drwyddedu erbyn
31ain Hydref 18	31ain Awst 18	30ain Ebrill 19	28ain Chwefror 19
30ain Tachwedd 18	30ain Medi 18	31ain Mai 19	31ain Mawrth 19
31ain Rhagfyr 18	31ain Hydref 18	30ain Mehefin 19	30ain Ebrill 19
31ain Ionawr 19	30ain Tachwedd 18	31ain Gorffennaf 19	31ain Gorffennaf 19
28ain Chwefror 19	31ain Rhagfyr 18	31ain Awst 19	30ain Mehefin 19
31ain Mawrth 19	31ain Ionawr 19	30ain Medi 19	31ain Gorffennaf 19

- DIM OND y Gyrwyr hynny sydd wedi cyflwyno dogfennau 8 wythnos cyn iddynt ddod i ben fydd yn cael caniatâd i yrru os na fydd eu gwiriad DBS yn dod yn ôl cyn dyddiad adnewyddu'r drwydded. **NI** chaniateir i'r rhai sy'n gwneud cais lai nag 8 wythnos cyn i'r drwydded ddod i ben a bod oedi cyn i'r gwiriad DBS ddod yn ôl, yrru hyd nes y daw'r gwiriad DBS yn ôl.

- RHAID gwneud apwyntiad i adnewyddu gyrwyr. Ni fyddwn yn gweld unrhyw un sy'n dod heb apwyntiad.